

Amcanion Ymgynghorwyr	Adroddiad Cynnydd yn ystod 2023
1. I gynghori ar strategaeth fuddsoddi addas, a newidiadau i'r strategaeth, i gyflawni'r enillion buddsoddi gofynnol o fuddsoddiadau'r Gronfa i gefnogi cynnydd tuag at lefel cyllido sefydlog yn y tymor hir.	Mae cyngor wedi ei dderbyn ar y strategaeth fuddsoddi yn ystod 2022, ac fe'i diweddarwyd yn 2023 i adlewyrchu newidiadau yn amodau'r farchnad a gwelliant yn y sefyllfa ariannu. Gwnaeth y Gronfa hefyd ymrwymiadau i ddyraniad ecwiti preifat newydd PPC er mwyn cynnal y dyraniad targed i arallgyfeirio asedau marchnad breifat. Mae'r Gronfa wedi adbrynu ei dyraniad i gronfa eiddo Lothbury ac mae'n parhau i gymryd cyngor ar y posibilrwydd o uno cronfeydd.
2. I gyflawni dull buddsoddi sy'n adlewyrchu sefyllfa llif arian y Gronfa, ac esblygiad tebygol, a lleihau'r risg o ddadfuddsoddi gorfodol.	Rhoddwyd cyngor ar llif arian i sicrhau bod digon o hylifedd i fodloni ymrwymiadau'r farchnad breifat. Mae fframwaith wedi'i gytuno a bydd yn cael ei fonitro a'i ddiweddarau yn seiliedig ar ragamcanion galwadau cyfalaf y rheolwyr. Dangosodd prisiad actiwaraid 2022 y disgwylir i'r Gronfa fod yn bositif o ran llif arian (mae'r incwm blyneddol yn fwy na'r gwariant blyneddol) am nifer o flynyddoedd. Bydd hyn yn cael ei adolygu ym mhrisiad actiwaraid 2025.
3. I gynghori ar weithredu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa fel bo'r angen, gan ystyried datblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru.	Mae PPC yn datblygu mandadau buddsoddi, ac mae'r Gronfa'n derbyn cyngor gan ei hymgyngorwyr buddsoddi ar sut i'w defnyddio yn strategaeth fuddsoddi'r Gronfa, er y gall y Gronfa ystyried mandadau buddsoddi nad ydynt yn rhai wedi'i pwlio. Yn 2023, gwnaeth y Gronfa ymrwymiadau i gronfa Ecwiti Preifat newydd PPC, a bydd ymrwymiadau i fandadau marchnad breifat eraill yn cael ei wneud dros amser.
4. I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio gyda rheoliadau pensiwn perthnasol a chynghor arweiniol.	Mae'r holl drefniadau'n parhau i gydymffurfio. Ni fu unrhyw newidiadau rheoliadol diweddar yr oedd y Gronfa angen fod yn ymwybodol ohonynt, ond mae'r Gronfa yn parhau i fonitro newidiadau disgwyledig deddfwriaethol (TCFD a pwlio asedau).

5. I ddatblygu polisiâu a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys rhai yn ymwneud a Buddsoddi Cyfrifol.	Mae'r Gronfa wedi datblygu polisi Buddsoddi Cyfrifol yn ystod 2022 a adolygwyd gan Hymans. Mae'r Gronfa wedi defnyddio hwn yn ystod 2023 i arwain ei benderfyniadau buddsoddi, a bydd yn adeiladu ar hyn fel y bo'n briodol.
6. I sicrhau bod y cyngor yn adlewyrchu polisiâu a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys y rhai mewn perthynas ag ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol.	Darparwyd cyngor ar fuddsoddiadau newydd, i sicrhau eu bod yn gyson â strategaeth fuddsoddi a pholisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa.
7. I ddarparu cyngor perthnasol ac amserol.	Mae cyngor a diweddariadau cyson yn cael eu darparu, yn cynnwys monitro perfformiad chwarterol, cyngor ar aifalansio, a chefnogaeth wrth drosglwyddo asedau.
8. I gynorthwyo'r Pwyllgor i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion buddsoddi.	Nid yw Hymans wedi darparu hyfforddiant uniongyrchol ar ddosbarthiadau ased, ond wedi gwneud drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Hymans yn diweddarau'r Pwyllgor ar ddatblygiadau o fewn y farchnad drwy gyflwyno'r adroddiadau perfformiad chwarterol. Hymans yn cefnogi yn ôl yr angen mewn perthynas â chronni, yn dilyn ymgynghoriad y llywodraeth ar y CPLIL.
9. Datblygu dealltwriaeth y Pwyllgor am risg hinsawdd a ESG.	Mae Hymans yn parhau i ymgorffori ESG ac ystyriaethau risg hinsawdd yn ei gyngor. Dros y cyfnod mae hyn wedi cynnwys trafodaethau dilynol yn ymwneud â modelu risg hinsawdd ac esblygiad modelu ar draws y diwydiant, cynnwys metrigau sy'n ymwneud â'r ESG mewn papurau briffio rheolwyr eiddo, a chyngor mewn perthynas â chronfa Ecwiti Cynaliadwy PPC a chronfa BlackRock Carbon Isel. Mae'r Gronfa'n parhau i fonitro'r gofynion sy'n ymwneud â TCFD, mesur allyriadau carbon ar gyfer y portffolio a thargedau sero net.
10. Bydd y gwasanaethau gan yr ymgynghorydd buddsoddi i gefnogi llywodraethu parhaus y Gronfa yn gymesur a cystadleuol o ran costau wrth gymharu gyda chyfoedion.	Mae ffioedd Hymans yn unol â ffioedd eu cyfoedion, gyda ffioedd sefydlog ar gyfer tasgau craidd, a chost amser ar gyfer tasgau ychwanegol.

11. Bydd yr ymgynghorydd buddsoddi yn gweithio o fewn cyllidebau cytunwyd arnynt a bydd yn dryloyw o ran costau cynghori, gan restru gwaith ychwanegol gyda ffioedd ymlaen llaw.	Mae ffioedd Hymans yn unol â grŵp cyfoedion, gyda ffioedd sefydlog ar gyfer rhai tasgau craidd, a ffioedd cost amser ar gyfer tasgau ychwanegol. Cytunir ar ffioedd prosiect mawr ymlaen llaw. Mae Hymans yn darparu cynlluniau blynyddol, yn defnyddio cyllidebau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw lle bo modd ac yn rhestru eitemau. Bydd Hymans yn gweithio gyda'r Gronfa i sefydlu chynllun ar gyfer 2024.
12. Bydd yr ymgynghorydd buddsoddi yn cydweithio gydag actiwari, rheolwyr asedau, a 'custodian' y Gronfa, yn ogystal â thrydydd partïon eraill gan gynnwys gweithredwr ac ymgynghorwyr y pŵl.	Mae Hymans yn gweithio gydag actiwari'r Gronfa (hefyd Hymans) fel y bo'n briodol. Yn ystod y flwyddyn mae hyn wedi cynnwys nodi gwelliant yn lefel ariannu'r Gronfa a dilyn i fyny gyda chyngor buddsoddi. Mae Hymans yn gweithio gyda rheolwyr buddsoddi lle bo'n berthnasol ar gyfer adrodd ar berfformiad, a hefyd rhagamcanu ymrwymadau marchnad breifat i gefnogi rheolaeth llif arian yn effeithlon.

Gwrthdaro buddiannau – datgeliad

Fel rhan o'r adolygiad hwn, hoffem hefyd dynnu eich sylw at sut mae Hymans Robertson LLP yn mynd i'r afael â'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau wrth roi cyngor ar ymarferion dewis rheolwyr. Byddem yn hapus i drafod y datganiad isod gyda chi i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Sylwch fod gan Hymans Robertson LLP a'n cwmnïau grŵp ystod eang o gleientiaid, y mae rhai ohonynt yn rheolwyr cronfa, a all fod yn bartïon yn ein hargymhellion i chi mewn amgylchiadau amrywiol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddewis rheolwyr, symud arian i neu o reolwr neu gefnogi cadw neu ddadfuddsoddi gan reolwr. Mae gennym dîm ymchwil sy'n rhoi cyngor ar lunio rhestr fer o reolwyr cronfeydd mewn ymarferion dewis rheolwyr a ffurfio barn ar reolwyr, sydd ar wahân i'n cleient a pherthnasoedd eraill gyda rheolwyr cronfeydd - felly nid ydym yn credu y bydd gwrthdaro a fyddai'n dylanwadu ar y cyngor a roddir.

Mewn rhai achosion, mae gennym drefniadau/cytundebau busnes masnachol gyda chleientiaid o fewn y sector ariannol lle rydym yn darparu gwasanaethau. Mae'r gwasanaethau hyn yn gwbl ar wahân i unrhyw gyngor y gallwn ei ddarparu wrth argymhell cynhyrchion i'n cleientiaid ymgynghorol. Darperir ein hargymhellion o ganlyniad i anghenion cleientiaid ac maent yn seiliedig ar ein hymchwil annibynnol. Lle ceir gwrthdaro canfyddedig neu wrthdaro posibl, gellir darparu argymhellion eraill.

